Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Practis Deintyddol Llynfi, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 15 Tachwedd 2022

Dyddiad cyhoeddi: 15 Chwefror 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80535-475-8

© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ........ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 8

- Ansawdd Profiad y Claf ........ 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 12
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 15

4. Y camau nesaf ........ 16

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 17

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 18

Atodiad C – Cynllun gwella ........ 19

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Llynfi, Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg ar 15 Tachwedd 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Roedd yn amlwg bod y staff yn Llynfi Dental yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion pan fyddant yn ymweld â'r practis, gan gynnal eu hurddas a'u cyfrinachedd ar yr un pryd. Dywedodd 12 allan o'r 13 claf a gwblhaodd yr holiaduron eu bod yn teimlo bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch yn y lleoliad.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rydym yn gofyn i'r practis sicrhau bod y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg
- Gwnaethom argymell y dylai'r staff sy'n siarad Cymraeg gael bathodynnau 'Iaith Gwaith'

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom arwyddion a gweithdrefnau effeithiol ar waith i leihau'r risg o drosglwyddo haint, posteri yn annog y defnydd o orchuddion wyneb a bod hylif diheintio dwylo ar gael i'r staff a'r cleifion.
- Gwelsom dystiolaeth o staff yn gweithio i gynnal cyfrinachedd y cleifion drwy sicrhau bod drysau'r ddeintyddfa ar gau bob amser yn ystod apwyntiadau.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom dystiolaeth fod polisïau a gweithdrefnau amrywiol ar waith yn y lleoliad i reoli heintiau. Roedd pob un ohonynt yn gyfredol ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Roedd hyfforddiant gorfodol i'r holl staff, a oedd yn cynnwys rheoli heintiau a diogelwch tân, hefyd yn gyfredol.

Roedd hi'n glir bod yr adeilad mewn cyflwr da, y tu mewn a'r tu allan. Roedd yr ardaloedd clinigol a chymunedol yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwnaethom roi gwybod i'r staff bod yn rhaid iddynt sicrhau cysondeb ar draws cofnodion pob claf o ran cael a chofnodi cydsyniad.
- Rydym yn gofyn i'r practis gwblhau archwiliad o drefniadau'r lleoliad ar gyfer cadw cofnodion cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben. Roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.
- Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael drwy'r practis, a gwelsom fod pob eitem wedi cael ei gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Roedd gan y practis bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu trin, eu cofnodi a'u dosbarthu'n ddiogel ac yn effeithiol.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Roedd yn amlwg bod gan Llynfi Dental arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd a strwythurau staffio clir ar waith.

Roedd cyfleoedd hyfforddiant priodol ar gael i'r staff ac roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf. Gwelsom dystiolaeth hefyd o gyfarfodydd staff rheolaidd ac arfarniadau blynyddol i'r holl staff.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae'n ofynnol gennym fod y staff sy'n gweithio yn yr ystafell ddihalogi yn unig yn y practis yn cwblhau hyfforddiant CPR hefyd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cofnodwyd cyfarfodydd staff yn briodol a chymerwyd camau effeithiol i sicrhau bod staff absennol yn cael gwybod am unrhyw ddiweddariadau a gwybodaeth a roddwyd yn ystod y cyfarfod.
- Roedd cofrestr gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith yn y practis. Roedd y rhain i gyd yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan reolwr y practis.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cawsom gyfanswm o 13 o holiaduron wedi'u cwblhau.  Roedd 10 allan o 13 o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers mwy na dwy flynedd. Dywedodd dau glaf wrthym eu bod wedi bod yn y practis ers llai na dwy flynedd ac un ers llai na blwyddyn.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

> *"Staff rhagorol ym mhob rhan o'r practis"*

> *"O fod yn rhywun sy'n ofni mynd at y deintydd caf fy ngwneud i deimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel bob amser"*

### Cadw'n Iach

**Diogelu a Gwella Iechyd**
Gwelsom dystiolaeth o newidiadau yn y practis o ganlyniad i bandemig COVID-19. Roedd arwyddion i'w gweld o hyd yn ardaloedd cymunedol y practis yn annog y cleifion i wisgo gorchudd wyneb. Roedd gorsafoedd diheintio dwylo hefyd wedi'u lleoli drwy'r practis a dywedodd y staff wrthym fod pob claf yn cael ei sgrinio ar gyfer symptomau COVID-19 cyn ei apwyntiad.

Dywedodd 12 o'r ymatebwyr fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach a dywedodd un claf nad oedd y tîm wedi gwneud hynny. Dywedodd pob un o'r 13 o gleifion bod y tîm deintyddol yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Roedd enw'r practis i'w weld yn amlwg y tu allan i'r lleoliad, yn ogystal â gwybodaeth am oriau agor y practis a manylion cyswllt mewn argyfwng. Roedd rhestr gyfredol o aelodau'r tîm deintyddol hefyd wedi'i harddangos mewn man amlwg yn y dderbynfa.

## Gofal ag urddas

**Cyfathrebu'n effeithiol**

Roedd yn amlwg bod y practis yn ymrwymedig i gynnal preifatrwydd y cleifion. Gwelsom fod drysau'r ddeintyddfa yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau. Dywedodd rheolwr y practis wrthym hefyd, pe byddai claf yn awyddus i siarad ag aelod o staff yn breifat, y byddai'r aelod o staff naill ai'n mynd ag ef i ystafell glinig wag, yn defnyddio'r ystafell aros ar y llawr cyntaf os nad oedd rhywun yno neu'n mynd i swyddfa rheolwr y practis.

Wrth gyrraedd ar gyfer apwyntiad, pe na fyddai claf yn awyddus i drafod ei reswm dros beidio â thalu am ei driniaeth, mae gan staff y dderbynfa restr o resymau wedi'i harddangos, y gall cleifion gyfeirio ati os bydd angen.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod nifer o staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio yn y practis. Gwelsom arwyddion yn rhoi gwybod i'r cleifion am hyn ac yn eu hannog i holi pe byddent yn awyddus i siarad ag aelod o staff Cymraeg. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai rheolwr y practis gael gafael ar fathodynnau 'Iaith Gwaith' ar gyfer aelodau o staff Cymraeg.

Gwelsom ddetholiad o bosteri gwybodaeth y GIG yn cael eu harddangos yn ddwyieithog yn y ddwy ystafell aros. Fodd bynnag, dim ond yn Saesneg roedd y daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben ar gael i'r cleifion. Gwnaethom roi gwybod i reolwr y practis ei bod yn ofynnol sicrhau bod y dogfennau hyn ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg.

Dywedodd y staff wrthym fod gwasanaeth cyfieithu ar gael i'r practis drwy'r bwrdd iechyd. Bydd apwyntiadau hirach yn cael eu trefnu er mwyn darparu ar gyfer cleifion y mae angen defnyddio'r gwasanaeth hwn ar eu cyfer.

Gwelsom fod y 9 Egwyddor, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn cael eu harddangos yn y ddwy ystafell aros.

**Gwybodaeth i gleifion**

Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth i gleifion wedi'i harddangos yn y ddwy ystafell aros ac yn ardal derbynfa'r practis. Roedd y practis hefyd yn darparu'r holl wybodaeth berthnasol ar ei wefan. Roedd y wybodaeth yn cynnwys gweithdrefn gwyno'r practis a phosteri 'Gweithio i Wella'. Roedd rhestr prisiau gynhwysfawr ar gyfer triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat hefyd wedi'i harddangos.

Cadarnhaodd adolygiad o'r daflen wybodaeth i gleifion ei bod yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

## Gofal amserol

### Mynediad amserol

Dywedodd y staff wrthym, os bydd oedi, y byddant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gleifion yn yr ystafell aros am amseroedd aros ychwanegol. Os byddant yn gwybod am achosion o oedi yn ddigon cynnar, bydd y staff hefyd yn cysylltu â'r cleifion cyn eu hapwyntiad ac yn gofyn iddynt ddod i mewn yn hwyrach. Fel arall, os caiff apwyntiad ei ganslo, bydd y staff yn ffonio'r cleifion er mwyn gweld a allant ddod i mewn yn gynharach.

Dywedwyd wrthym nad yw'r practis yn defnyddio system trefnu apwyntiadau ar-lein. Gellir trefnu apwyntiadau dros y ffôn, a gwelsom gleifion hefyd yn trefnu apwyntiadau wyneb yn wyneb â staff y dderbynfa.

Roedd ymatebion o'r holiaduron a gwblhawyd yn nodi gwahanol safbwyntiau am hygyrchedd apwyntiadau. Dywedodd pedwar o'r 13 o gleifion wrthym ei fod yn 'hawdd iawn' cael apwyntiad pan oedd angen un, dywedodd saith wrthym ei fod yn 'eithaf hawdd', dywedodd un 'nad yw'n hawdd iawn', a dywedodd un wrthym 'nad yw'n hawdd o gwbl'.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dywedodd pob un o'r 13 o gleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth.

Nododd naw allan o'r 10 o gleifion a atebodd eu bod yn teimlo y gallant gael y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir (ni waeth eu hoedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol) a dywedodd un nad oedd yn teimlo hynny.

Nododd pob un o'r 11 o gleifion a atebodd nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

### Hawliau pobl

Gwnaethom adolygu'r polisïau yn y practis a chadarnhau bod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth a pholisi cyfle cyfartal cynhwysfawr ar waith. Roedd y polisïau yn cael eu hadolygu a'u darllen gan aelodau o'r staff bob blwyddyn, a oedd yn amlwg o'r

dyddiadau adolygu clir ar y dogfennau a llofnodion a dyddiadau a oedd wedi'u nodi gan y staff i ddangos eu bod wedi darllen y polisïau.

Roedd gan y practis fynediad llawn i bobl anabl, gan gynnwys deintyddfa ar y llawr gwaelod, toiled i bobl anabl ac ardal aros fawr. Dywedodd rheolwr y practis wrthym hefyd fod dolen sain ar gael yn y practis pe byddai angen i unrhyw glaf ei defnyddio. Cafodd y wybodaeth hon ei darparu ar wefan y practis hefyd.

**Gwrando a dysgu o adborth**
Roedd y broses gwyno wedi'i harddangos yn yr ardal aros. Roedd y wybodaeth am gwyno yn cynnwys y broses y mae angen ei dilyn, y terfynau amser ar gyfer ymateb, a manylion yr aelod o'r staff sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion.

Roedd y cleifion yn cael eu hannog i roi adborth ar-lein a thrwy ddefnyddio'r holiaduron a'r blychau adborth yn yr ardaloedd aros. Roedd y daflen wybodaeth i gleifion hefyd yn cynnwys manylion am sut y gellir rhoi adborth i'r practis.

Gwnaethom ofyn i reolwr y practis am unrhyw enghreifftiau o newidiadau sydd wedi cael eu gwneud o ganlyniad i adborth. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi prynu mat atal llithro ar gyfer y brif fynedfa ar ôl cael adborth gan gleifion yn nodi y gallai'r llechen fod yn llithrig.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Gofal diogel

**Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**
Roedd yn amlwg bod y practis mewn cyflwr da, y tu mewn a'r tu allan, a gwelsom fod pob rhan o'r practis yn lân ac yn daclus.

Mae'r practis yn cynnwys pedair deintyddfa, dwy ar y llawr gwaelod a dwy ar y llawr cyntaf. Mae ardal aros fawr ar ddau lawr y practis, ac mae ystafell fawr i'r staff ar ail lawr y practis hefyd. Hefyd, roedd toiled i'r cleifion ar lawr gwaelod a llawr cyntaf y practis. Roedd arwyddion clir ar gyfer y ddau, ac roeddent yn lân iawn yn ôl pob golwg.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y rhain wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Nodwyd gennym fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith yn y practis, yn ogystal ag amrywiaeth o asesiadau risg. Roedd hyn yn cynnwys asesiad risg diogelwch tân, asesiad risg amgylcheddol ac asesiad risg iechyd a diogelwch. Roedd pob un yn gyfredol ac yn cael ei adolygu o fewn terfynau amser priodol.

**Atal a rheoli heintiau**
Roedd gan y practis gyfleusterau penodol ar gyfer dihalogi offer deintyddol yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Gwelsom hefyd nifer o bolisïau ar waith o ran gweithdrefnau atal a rheoli heintiau'r practis.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant rheoli heintiau gorfodol.

Roedd trefniadau priodol ar waith hefyd gan y practis ar gyfer ymdrin â gwastraff a'i waredu. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gwastraff clinigol yn cael ei storio a'i wahanu mewn ffordd ddiogel a phriodol.

**Rheoli meddyginiaethau**
Gwelsom dystiolaeth fod polisi rheoli meddyginiaethau cynhwysfawr ar waith yn y practis. Roedd nifer o weithdrefnau a threfniadau ategol ar waith yn y practis hefyd er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu trin, eu cofnodi a'u dosbarthu'n ddiogel ac yn effeithiol.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff sy'n dod i gysylltiad â chleifion wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR). Fodd bynnag, nid oedd y ddau aelod o'r staff sy'n gweithio yn yr ardal ddihalogi wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol. Gwnaethom hysbysu rheolwr y practis fod yn rhaid i bob aelod o'r staff gael yr hyfforddiant hwn.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg**
Gwelsom dystiolaeth o dystysgrifau hyfforddiant diogelu cyfredol ar gyfer pob aelod o'r staff. Dywedodd rheolwr y practis wrthym hefyd fod aelod o staff o'r bwrdd iechyd ar gael i'r practis, a all gynnig cyngor a chanllawiau ar faterion diogelu. Roedd manylion cyswllt yr unigolyn hwn wedi'u nodi ym mholisi diogelu a siart llif y practis.

Roedd gan y practis ffolder gwybodaeth diogelu gynhwysfawr a oedd ar gael i'r staff. Roedd yn cynnwys polisi diogelu cyfredol, dogfennau ategol amrywiol eraill a siart llif glir i'r staff gyfeirio atynt. Roedd y dogfennau hyn hefyd yn cynnwys manylion am y tîm diogelu lleol.

Disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogaeth a fyddai'n cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau geirdaon a /neu gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cadarnhawyd gennym fod gan bob aelod perthnasol o'r staff wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Cadarnhawyd gennym hefyd fod pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

**Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**
Roedd y cyfleusterau clinigol yn cynnwys yr holl gyfarpar perthnasol, a gwelsom fod y deintyddfeydd yn drefnus iawn, yn lân ac yn daclus. Gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau hyfforddiant y staff fod pob unigolyn perthnasol wedi cael hyfforddiant i sicrhau ei fod yn defnyddio cyfarpar yn ddiogel.

## Gofal effeithiol

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**
Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau cadarn ar waith i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y manylion hyn wedi'u dogfennu yn y datganiad o ddiben ac mewn polisïau a gweithdrefnau.

**Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**
Roedd yn amlwg bod amrywiaeth o archwiliadau wedi cael eu cwblhau, gan gynnwys archwiliad WHTM01- 05 ac archwiliad rhoi'r gorau i smygu. Fodd bynnag, mae'n

ofynnol gennym i'r practis gwblhau archwiliad o'r trefniadau ar gyfer cadw cofnodion cleifion mewn modd amserol a darparu tystiolaeth o hyn i AGIC.

**Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Roedd polisi diogelu data a pholisi cyfrinachedd staff ar waith yn y practis. Roedd cofnodion cleifion cyfredol yn cael eu storio'n electronig ac yn ddiogel.

**Cadw cofnodion**

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion 10 claf a gwelsom eu bod wedi'u cynnal i safon dda. Fodd bynnag, er gwaethaf y ffaith bod pob cofnod yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth berthnasol, gwelsom ddiffyg cysondeb o ran cael cydsyniad a'i gofnodi. Gwnaethom roi gwybod i reolwr y practis fod yn rhaid cofnodi cydsyniad yng nghofnod pob claf yn y dyfodol.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd**

Roedd tystiolaeth o arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir ar waith yn y practis. Roedd dau reolwr y practis yn llwyddo i reoli'r practis o ddydd i ddydd yn llwyddiannus, ac roedd y ddau ohonynt yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'w rôl.

Gwnaethom edrych ar y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion. Roedd y ddwy ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd yn amlwg bod y practis yn cadw cofrestr gyfredol a manwl o bolisïau a gweithdrefnau. Gwelsom dystiolaeth eu bod yn cael eu hadolygu bob blwyddyn gan reolwr y practis, a thaflen llofnodi a dyddio, yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi darllen polisïau'r practis yn ddiweddar.

Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal yn y practis. Mae cofnodion ar gael ar gyfer y cyfarfodydd a rhoddir copi o'r cofnodion hyn i bob aelod o'r staff er mwyn gallu cyfeirio atynt. Os bydd unrhyw unigolion yn methu â mynychu'r cyfarfodydd, dywedodd rheolwr y practis wrthym y caiff copïau o'r cofnodion eu rhoi yn eu locer, er mwyn iddynt allu bwrw golwg drostynt pan fyddent yn dychwelyd i'r gwaith.

**Y Gweithlu**

Gwnaethom adolygu'r polisïau a oedd yn amlinellu'r broses a ddefnyddir i recriwtio aelodau newydd o staff ac i gefnogi'r broses o gyflogi a sefydlu staff. Dywedodd rheolwr y practis wrthym am y broses sefydlu ar gyfer staff newydd, a oedd yn cynnwys darllen polisïau'r practis a chwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol.

Rhoddodd rheolwr y practis ffeiliau'r staff i ni fwrw golwg drostynt. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac roedd tystiolaeth o frechiadau Hepatitis B a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ffeil pob aelod o'r staff a chofnodion o arfarniadau blynyddol. Roedd yn amlwg bod pob aelod o'r staff wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wrth ddechrau gweithio yn y practis. Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn gofyn i aelodau o'r staff am unrhyw beth a fyddai'n newid eu cais i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ym mhob arfarniad.

Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban ar waith a gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi'i ddarllen.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw bryderon** | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Insert name

## Dyddiad yr arolygiad: Insert date

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw welliannau** | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

Dyddiad:

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth: Llynfi Dental**

**Dyddiad yr arolygiad: 15/11/2022**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Rhaid i'r practis sicrhau bod y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg** | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13 (1)(a)<br><br>Safonau Iechyd a Gofal - 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol | Rhoddwyd i Ioan Owen i'w cyfieithu | Ioan Owen / BILL | Tri mis |
| **Rhoi bathodynnau 'Iaith Gwaith' i'r staff sy'n siarad Cymraeg** | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) | Archebwyd drwy e-bost 17/1/2023<br><br>post@cyg-wlc.wales | Ann Collins | Cadarnhau eu bod wedi cyrraedd ymhen mis |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2017 - Rheoliad 13 (1)(a)<br><br>Safonau Iechyd a Gofal - 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol | 0345 6033 221 | | |
| Staff i sicrhau cysondeb yng nghofnodion pob claf o ran cael cydsyniad a'i gofnodi. | Safonau Iechyd a Gofal - 3.5 Cadw cofnodion | Cwblhawyd hyfforddiant i'r staff<br><br>Caiff archwiliad ei gynnal | Lisa Rigby | Tri mis |
| Mae'n ofynnol gennym fod y staff sy'n gweithio yn yr ystafell ddihalogi yn unig yn y practis yn cwblhau hyfforddiant CPR hefyd. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 17(1)(a) a 22(4)(c)<br><br>Safonau Iechyd a Gofal - 7.1 Y Gweithlu | Trefnwyd hyfforddiant CPR ar gyfer 29/6/2023<br><br>@ 9am | Ann Collins | Trefnwyd ar gyfer 17/1/23 |
| Mae'n ofynnol i'r staff gynnal archwiliad o'r trefniadau ar gyfer cadw cofnodion cleifion mewn modd amserol a darparu tystiolaeth o hyn i AGIC. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) | Caiff archwiliad cadw cofnodion<br><br>ei gwblhau. | Lisa Rigby | Tri mis |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2017 – Rheoliad 16 (1) (a)<br><br>Safonau Iechyd a Gofal – 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesedd a 3.5 Cadw cofnodion | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth: Ann Collins**

**Enw (priflythrennau): Ann Collins**

**Teitl swydd: Rheolwr y practis**